Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd yr Heddlu

Dyddiad:	6 Mawrth 2018	**Cadeirydd:**	Lee Jones (Pennaeth Staff y Comisiynydd)	**Man Cyfarfod:**	Pencadlys yr Heddlu, Pen-y-bont ar Ogwr
Y rhai a fu'n bresennol	Lee Jones, Hannah Jenkins-Jones, Prif Uwcharolygdd Andrew Valentine, Prif Arolygydd John Wainwright, Kathryn Chadd (Adnoddau Dynol), Claire Spiller, Alex Drummond, Gareth Hughes, Martin Innes, Steve Barkley, Emma Small, Ruth Coombs, Rebecca Frohwein.				

Crynodeb o'r Trafodaethau

1. Croeso a Chyflwyniadau

Diolchodd LJ i'r aelodau am ddod i'r cyfarfod a nododd ymddiheuriadau oddi wrth sefydliadau a wahoddwyd ond nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Trafododd LJ y cyfarfod blaenorol a rôl Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ym maes Atebolrwydd a Dilysrwydd. Yn ogystal â hyn, ymhelaethodd LJ ar rôl statudol tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Roedd y grŵp yn un ffordd roedd y tîm yn ceisio cynnwys cyrff allanol yn ei ddyletswydd statudol i geisio barn y gymuned. Soniodd AV wrth y grŵp am sefyllfa'r heddlu o ran dilysrwydd, gan roi trosolwg o'r ffordd roedd dilysrwydd wedi'i integreiddio â fframweithiau ACEM.

2. Camau Gweithredu Blaenorol

Trafodwyd y camau gweithredu blaenorol o gyfarfod diwethaf y grŵp a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf ganlynol:

Cam Gweithredu			
8	Dosbarthu data demograffig o arolwg boddhad dioddefwyr Troseddau Casineb.	Sarah Mahon	Wedi'i gwblhau Demographic

9	Cytunodd y grŵp hefyd y dylid cynnwys y term 'Roma' mewn trafodaethau ar y pwnc hwn yn y dyfodol er mwyn defnyddio'r derminoleg gyfredol.	Pawb	Wedi'i gwblhau
10	Bwriedir rhannu'r fideo ar Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb â'r rhaglen ysgolion.	Hannah Jenkins-Jones	Yn mynd rhagddo – cadarnhaodd HJJ fod y fideo wedi cael ei rannu. Byddai gwaith dilynol yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu'n effeithiol. Cynigiodd RC i ledaenu'r adnodd hwn ymhlith cynulleidfa ehangach, gan awgrymu y dylai gael ei rannu â Chomisiynydd Plant Cymru.

3. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

Rhoddodd HJJ gyd-destun y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd a'r fframwaith adrodd blynyddol i'r grŵp. Pennwyd yr amcanion yn y cynllun yn 2015, i'w diweddaru yn 2018. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf bob blwyddyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol. Gofynnodd LJ i'r grŵp ystyried y cyd-destun yn yr adroddiad a gwneud sylwadau ar unrhyw feysydd a oedd yn achos pryder. Esboniodd HJJ hefyd y byddai awgrymiadau ynglŷn â meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol yn cael eu croesawu, o ystyried y byddai angen i Heddlu De Cymru ddatblygu'r amcanion newydd erbyn y gwanwyn.

Cyflwynodd JW amcanion unigol y Cynllun yn eu tro.

Troseddau Casineb

Gofynnodd RC a oedd data ar droseddau casineb cyn ac ar ôl Brexit wedi dangos unrhyw broblemau penodol neu gynnydd sydyn. Atebodd JW fod lefelau troseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt bob amser wedi tueddu i amrywio a bod y ffigurau presennol wedi dychwelyd i lefelau tebyg a welwyd cyn Brexit.

Trafododd ES fater rhoi gwybod am droseddau casineb a theimlai y dylid gwneud rhagor o waith i barhau i annog dioddefwyr i gysylltu â'r heddlu. Cytunodd AV â'r pryder hwn, gan esbonio hefyd rai o'r anawsterau o ran cymharu data rhwng heddluoedd. Yn Heddlu De Cymru, gwnaed penderfyniad i gofnodi trosedd ar adeg y cysylltiad cyntaf. Nid oedd heddluoedd eraill yng Nghymru yn dilyn y polisi hwn ac felly roedd angen bod yn ofalus wrth gymharu data yn uniongyrchol. Nododd AV fod Heddlu De Cymru wedi cael ei ganmol am ei gynnydd cadarnhaol o ran cofnodi troseddau.

Awgrymodd AD y gellid defnyddio dadansoddiad ansoddol i ystyried profiadau o roi gwybod am droseddau casineb ymhellach er mwyn deall yn well sut i weithredu. Mynegodd GH bryderon bod diwylliant 'ni a nhw' posibl wedi'i wreiddio'n ddwfn o hyd mewn rhai cymunedau, a allai effeithio ar hyder pobl i roi gwybod am achosion. Trafodwyd atebion posibl i weithio i chwalu rhwystrau. Cynigiodd AD rannu ychydig o ymchwil a gynhaliwyd gan Stonewall, a allai roi dealltwriaeth o weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau y gellir canfod eu bod yn elyniaethus i'r heddlu.

Cododd GH rwystredigaethau hefyd ynglŷn â'r diffyg cysondeb o ran prosesau troseddau casineb ymhlith unedau rheoli sylfaenol. Ymatebodd LJ y byddai bob amser sefyllfaoedd demograffig a rheoli gwahanol a fyddai'n dylanwadu ar drefniadau lleol a phwysleisiodd y dylid rhoi'r ffocws ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Dywedodd AV y byddai'n codi'r sylwadau ynglŷn ag anghysondeb gyda phrif swyddogion.

Mynegodd SB pa mor bwysig oedd ystyried anghenion penodol pobl hŷn mewn perthynas â throseddau. Er nad oedd oedran yn gategori cofnodi troseddau casineb ar hyn o bryd, roedd pobl hŷn yn aml wedi cael profiadau unigryw o droseddu o ran rhoi gwybod ac ymchwiliadau. Awgrymyd y gellid ystyried y materion hyn mewn amcan yn dyfodol. Nododd LJ fod y categori o bobl sy'n agored i niwed yn ei gyfanrwydd yn dod yn ffocws cynyddol i Heddlu De Cymru ac roedd hyn yn cynnwys y ffocws ar ddioddefwyr sy'n agored i niwed. Rhoddodd AV drosolwg o Ymgyrch Signature i'r grŵp, a oedd yn canolbwyntio ar droseddau a gyflawnwyd yn erbyn pobl a oedd yn agored i niwed, yn enwedig twyll. Gellid rhoi rhagor o fanylion mewn cyfarfod yn y dyfodol er mwyn cael trafodaeth.

Awgrymodd AD y gallai amcan cydraddoldeb yn y dyfodol ymwneud ag anghenion pobl sy'n agored i niwed felly, a allai ystyried anghenion pobl hŷn yn ogystal â'r rhai ag anghenion cyfathrebu ac anghenion niwroamrywiaeth, megis y rhai sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac awtistiaeth.

Codwyd mater hyfforddiant gan RF. Cytunodd JW ac AV y byddent yn trafod hyn ymhellach â Gwasanaethau Dysgu a Datblygu. Cynigiodd SB adnodd hyfforddiant a fyddai ar gael i swyddogion a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd roedd cenedlaethau hŷn yn agored i niwed.

Stopio a Chwilio

Rhoddwyd trosolwg o'r materion cyfredol ynglŷn â stopio a chwilio mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol. Mae dyfeisiau fideo a wisgir ar y corff wedi cael eu cyflwyno drwy'r heddlu cyfan ac roedd yn ofynnol bellach bod achosion o stopio a chwilio yn cael eu recordio gan swyddogion. Soniodd HJJ wrth y grŵp am weithdai ar bwerau stopio a chwilio a gynhaliwyd ganddi yng Nghaerdydd yn ddiweddar gyda thua 60 o oedolion ifanc. Roedd tua dau o bob tri o'r bobl ifanc o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ac roedd y grwpiau'n teimlo'n dawelach eu meddwl eu bod yn deall diben stopio a chwilio a'u hawliau yn ystod chwiliad. Roedd y bobl ifanc hefyd yn gadarnhaol ynglŷn â'r defnydd o ddyfeisiau fideo a wisgir ar y corff ac yn deall y gallai fynd o'u plaid os oeddent byth am gwyno am achos. Cafodd aelodau'r grŵp eu calonogi gan hyn.

Hygyrchedd
Roedd llawer o'r gwaith ar hygyrchedd wedi'i gynnwys mewn trafodaethau cynnar ar anghenion cyfathrebu pobl sy'n agored i niwed. Rhoddwyd diweddariad byr ar y Strategaeth Ystadau ehangach i aelodau'r grŵp.

Anghenion Amrywiol yn y Ddalfa
Nododd AV ei bod yn bwysig sicrhau nad oedd unigolion mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael eu cadw yn y ddalfa am fwy o amser nag oedd ei angen er mwyn osgoi troi problemau iechyd meddwl yn drosedd. Ymhelaethodd RF ar y materion a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl iau mewn argyfwng iechyd meddwl. Trafodd RC y materion a oedd yn ymwneud â deddfwriaeth ac ymatebion posibl Llywodraeth Cymru o ran y materion hyn. Ymatebodd AV fod y Prif Gwnstabl wedi cyfarfod â Vaughan Gething AC yn ddiweddar a bod nifer o faterion ynglŷn ag iechyd meddwl yn rhan o'r sgyrsiau a oedd yn parhau rhyngddynt. Cadarnhaodd LJ fod llawer o waith wedi'i wneud ar hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda phrosiect o dan arweiniad y Comisiynydd yn eitem bosibl ar yr agenda yn y dyfodol er mwyn i aelodau'r grŵp wneud sylwadau pellach.

Trais yn erbyn Menywod a Merched
Rhoddodd JW y ffigurau diweddaraf a'r wybodaeth ddiweddaraf am raglenni o ran yr amcan hwn i'r grŵp. Cadarnhaodd LJ eto fod cryn dipyn o waith ar y cyd yn cael ei wneud yn y maes hwn, a ddylai gyfiawnhau eitem benodol ar yr agenda yn y dyfodol agos. Croesawyd hyn gan y grŵp.

Dywedodd RC wrth y grŵp bod arolwg diweddar gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar aflonyddu rhywiol wedi dod i ben. Câi'r canfyddiadau eu rhoi i'r grŵp gyfeirio atynt.

Trafododd JW hefyd y gwaith prosiect a oedd yn cael ei wneud gyda gweithwyr rhyw. Cododd AD fater ynglŷn ag iaith, gan ofyn i hyn gael ei adlewyrchu wrth gyfathrebu'n allanol am annog unigolion i 'adael' y diwydiant. Roedd yn bwysig peidio â gwneud i

grŵp sy'n agored i niwed deimlo'n llai parod i roi gwybod am droseddau os oeddent yn meddwl y byddai'r heddlu bob amser yn chwilio am ffyrdd i'w cael i adael y diwydiant. Nodwyd hyn.

Gweithlu Cynrychioliadol
Crynhodd JW y gwaith a oedd yn cael ei wneud i greu gweithlu mwy cynrychioliadol yn Heddlu De Cymru, a roddwyd yn y diwedariad ar yr adroddiad blynyddol. Nododd LJ ei fod yn un o flaenoriaethau allweddol y Comisiynydd a'i fod wedi'i gynnwys yng Nghynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu. Canmolodd AD y gwaith a oedd yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth o effaith y menopos yn y gweithle. Rhoddodd HJJ ddiweddariad i'r grŵp ynglŷn â nifer y bobl BME a oedd wedi cael eu cyflogi gan Heddlu De Cymru ers i'r prosiect ar y cyd ynglŷn â Gweithlu Cynrychioliadol ddechrau. Croesawodd aelodau'r grŵp y gwaith cadarnhaol a oedd yn cael ei wneud.

CAMAU GWEITHREDU:

- **Diweddariad ar Ymgyrch Signature i'w roi mewn cyfarfod yn y dyfodol, ynghyd â diweddariad ar faterion ehangach Gwasanaethau i Ddioddefwyr.**

- **Eitemau ar yr agenda a thrafodaethau ar y gwaith sy'n cael ei wneud ym maes iechyd meddwl a thrais yn erbyn menywod a merched mewn cyfarfod yn y dyfodol.**

- **Swyddogion arweiniol perthnasol y Comisiynydd i gael gwahoddiad i fod yn bresennol yn ystod y gwaith uchod.**

- **Alex Drummond i rannu ymchwil er mwyn rhoi dealltwriaeth o weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau y gellir canfod eu bod yn elyniaethus i'r heddlu.**

- **Prif Uwcharolygydd Andy Valentine i godi anghysondeb ynglŷn â phroses troseddau casineb ymhlith unedau rheoli sylfaenol yn fewnol.**

- **Ystyriaeth i'w rhoi i'r ffordd y gellir defnyddio adborth i lywio blaenoriaethau cydraddoldeb yn y dyfodol.**

4. Adolygiad Cymheiriaid Anabledd

Wedi'i gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

5. Adroddiad Asesu Strategol Heddlu De Cymru

Wedi'i gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

6. Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Wedi'i gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Dywedodd RC wrth y grŵp bod cynhadledd 'Is Britain Fair?' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cael ei chynnal ym mis Mawrth. Roedd lleoedd ar gael o hyd os oedd hon o ddiddordeb i'r grŵp.

Cam Gweithredu			
1	Trefnu rhoi diweddariad ar Ymgyrch Signature i'r grŵp mewn cyfarfod yn y dyfodol	**Sarah Mahon**	
2	Trefnu cyfraniadau ar iechyd meddwl, trais yn erbyn menywod a merched a Gwasanaethau i Ddioddefwyr â swyddogion arweiniol perthnasol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol yn 2018	**Sarah Mahon**	
3	Rhannu ymchwil Stonewall a all roi dealltwriaeth o weithio'n gadarnhaol gyda grwpiau y gellir canfod eu bod yn elyniaethus i'r heddlu.	**Alex Drummond**	
4	Codi anghysondeb ynglŷn â phrosesau troseddau casineb ymhlith unedau rheoli sylfaenol	**CS Andy Valentine**	
5	Ystyriaeth i'w rhoi i'r ffordd y gellir defnyddio adborth i lywio blaenoriaethau cydraddoldeb yn y dyfodol	**Heddlu De Cymru a thîm y Comisiynydd**	